



Plant y Cymoedd

Cynllun Iaith Gymraeg y Celfyddydau 2025-2026

Tachwedd 2025



Cyflwyniad a Chyd-destun

Ffocws allweddol fîm Celfyddydau Plant y Cymoedd yw ein prosiect celfyddydau ieuenctid Sparc, sydd wedi ennill gwobrau. Yn 2024, gwnaethom allu cynnwys ein gwaith celfyddydau gweledol yn ffurfiol yn ein portffolio, gan weithio gydag oedolion hŷn yn bennaf. Yn gynyddol, rydym yn datblygu ffocws cymunedol i'r gwaith hwn, gan fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd; mae wedi cyfoethogi ein portffolio ac wedi cynnig cyfleoedd newydd.

Mae cynhwysiant yn ganolog i Plant y Cymoedd. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n gynyddol anghyfartal ac mae hyn ar ei fwyaf amlwg yng Nghymoedd De Cymru, lle y ceir rhai o'r cymunedau tlotaf yn Ewrop. Mae anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol yn parhau yn felltith ar ein cymdeithas ar hyn o bryd.

"Mae Cymoedd De Cymru yn dangos anghydraddoldeb ar draws amrywiaeth o ddangosyddion ieuchyd, llesiant ac addysg". Ein Cymoedd, Ein Dyfodol (2017).

Cynhelir cynllun celfyddydau Plant y Cymoedd mewn cymunedau a ddynodwyd yn flaenorol yn rhai Cymunedau yn Gyntaf yn unig, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Y Cyd-destun ar gyfer Datblygu'r Gymraeg

Mae ein dull o ddatblygu ein cynllun iaith Gymraeg yn cyd-fynd â strategaeth ein cynllun cydraddoldeb. Er nad yw'r Gymraeg yn dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ffurfiol, mae Deddf yr Iaith Gymraeg 2010 yn deddfu dros hybu a hwyluso'r Gymraeg. Ers mis Chwefror 2011, mae gan y Gymraeg statws iaith swyddogol ac rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru ddwyieithog. Yn strategaeth ddiweddaraf y Llywodraeth, 'Cymraeg 2050: Miliwn

VALLEYSKIDS.ORG

o siaradwyr', nododd y Llywodraeth dargedau uchelgeisiol i gyflawni hyn ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r broses hon.

Rydym yn byw mewn ardal lle y mae 19.6% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011). Fodd bynnag, mae galw am addysg Gymraeg yn ein cymunedau, yn arbennig ymhlith y genhedlaeth iau, ac mae diddordeb cynyddol mewn dysgu a siarad Cymraeg.

Rhaid i'n dull o greu cynllun iaith Gymraeg weddu â'n cyd-destun ni. Yn ein gwaith, rydym yn mynd ati i geisio ymgysylltu â'r bobl ifanc a'r oedolion hŷn mwyaf bregus a heriol yng Nghymru ac, felly, mae cyfathrebu rhagorol yn hollbwysig. Un o lwyddiannau Sparc yw bod 80% o'r fîm presennol wedi eu magu yn ein cymunedau a'u bod wedi cymryd rhan eu hunain. Yn sgil eu profiad eu hunain, maent yn deall yr heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yng Nghymoedd De Cymru. O fewn y fîm, mae diddordeb a pharodrwydd i ddatblygu'r Gymraeg drwy ein gwaith, ond nid ydym oll yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac felly rydym yn croesawu hyfforddiant a chefnogaeth i wneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae pecyn cymorth dwyieithog defnyddiol Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod bod y "bobl sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn iau na'r rhai sydd heb sgiliau o'r fath, ac mae cyfran uwch ohonynt yn perthyn i'r dosbarthiadau ABC1 nad ydynt yn waith llaw". Nid yw hyn yn adlewyrchu ein cyd-destun ni ac felly roeddem am fabwysiadu dull agored a chynhwysol iawn o weithredu ein cynllun i sicrhau ei fod yn effeithiol. Prif bwyslais ein gwaith yw meithrin hyder a hunan-barch y rhai sy'n cymryd rhan, annog eu dyheadau a'u grymuso i wneud y newidiadau y maent eisiau eu gwneud yn eu bywydau.

Gall annog pobl ifanc ac oedolion hŷn i ddysgu am eu diwylliant, eu treftadaeth a'r Gymraeg gael effaith fawr. Pan ydym wedi ymweld â gwledydd eraill, maent wedi bod yn awyddus i rannu eu diwylliant a'u hiaith ag eraill. Ein rôl yw eu hannog i ddatblygu eu harferion yn ddwyieithog mewn modd anfeirniadol a chefnogol.

Rydym wedi cytuno ar dargedau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i wella ein darpariaeth Gymraeg ac rydym yn hyderus y gallwn gyflawni'r rhain. Rydym yn ceisio creu dull mwy creadigol a chwareus a fydd yn annog ein staff a'n cymunedau i fabwysiadu dull holistaidd o ymdrin â'r iaith a thraddodiadau diwylliannol cyfoethog Cymoedd De Cymru. Rydym wrth ein boddau bod Rhodri Trefor wedi'i benodi'n gydgysylltydd dysgu Cymraeg ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru - dyma yn union y math o gymorth ymarferol sydd ei angen arnom a byddwn yn cymryd mantais lawn o'r cymorth a'r cyrsiau sydd ar gael.

"Rwyf eisiau gwrando ar eich pryderon a'ch awgrymiadau, a chlywed am unrhyw rwystrau sydd gennych mewn perthynas â dysgu Cymraeg". Rhodri Trefor

Pan ddaeth yr Eisteddfod i Bontypridd yn 2024, cynigiodd gyfle oes i ni gyd. Gwnaethom geisio cymryd rhan lawn yn y digwyddiad, o'n hartist preswyl a oedd yn aelod o'r pwyllgor trefnu, i'n pobl ifanc a'n hartistiaid sy'n dod i'r amlwg a berfformiodd ac a ymwelodd â'r digwyddiad, gan ymdrochi eu hunain yn y profiad a chymryd rhan.

Cyn yr Ŵyl, gwnaethom ymgynghori â'n pobl ifanc i weld sut yr oeddent am gymryd rhan, ac roeddem wrth ein boddau bod y bobl ifanc o'n theatrau ieuenctid oll yn awyddus i fynd.

Mynychodd pobl ifanc o'n Theatrau Ieuenctid ym Mhen-y-graig a Rhydyfelen yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Mae nifer ohonynt yn niwrowahanol, felly mae angen i'n Dirprwy Gyfarwyddwr gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau newydd yn ofalus. Cawsant amser bendigedig er gwaethaf y glaw trwm! Gwnaethant ymweld â phabell y dysgwyr, perfformiad Pencil Breakers, a gweithdai cerddoriaeth a cholur theatrig. Roedd yn brofiad cyffrous iddynt oll ac roeddent yn awyddus i ddychwelyd.

Perfformiwyd gwaith Pencil Breakers yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Fe'i cyfarwyddwyd gan Bethan Marlow, a pherfformiodd yr artistiaid proffesiynol, Menna Rogers a Deborah Newton-Williams, eu darnau creadigol yn y babell Paned o Gê. Ar ôl y sesiwn, cynhaliodd ein haelod mwyaf hirsefydlog sesiwn holi ac ateb am y gwaith.

Roedd hwn yn ymyriad mor llwyddiannus. Sbardunodd sgwrs ddyfnach â'r cyfranogwyr a'r artistiaid a gymerodd ran yn yr Eisteddfod am yr angen am wagle ar gyfer ysgrifenyddwyr yn Rhondda Cynon Taf sydd eisiau datblygu eu gwaith yn Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at brosiect newydd, Sgwennu Radical, sy'n galluogi safbwyntiau penodol ysgrifenyddwyr cwiâr, anabl, niwrowahanol, gweithredol, a Chymraeg i ddod i'r amlwg - dan arweiniad Bethan Marlow.

Gwnaeth hyn greu'r gwaith ar y cyd â Mess up the Mess a Queertawe yn Abertawe. Cawsom wahoddiad i gyfrannu at eu Gŵyl a gwnaethom gyflwyno 'Whispering Tea Cups', sef gosodwaith yn cynnwys darnau byr yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog. Gwahoddwyd aelodau'r gynulleidfa i ymuno â the parti, lle gallent afael mewn cwpanau te a gwrando ar ddarnau a ddisgrifiwyd ar sail 'ansawdd y te', boed yn fyglyd ac aromatig neu'n gryf a sawrus. Mae sesiynau wythnosol Pencil Breakers bob tro'n ddwyieithog ond mae'r cyfle i gynnal sesiynau ychwanegol yn Gymraeg yn unig wedi caniatáu i leisiau newydd ddod i'r amlwg.

Rydym yn parhau i gefnogi Leeway Productions ac yn edrych am gyfleoedd i gydweithio ar ôl llwyddiant y sioe gerdd 10 munud. Fodd bynnag, chwaraeodd Angharad Lee rôl mor ganolog yn yr Eisteddfod a daeth hyn yn brif ffocws iddi, ac felly nid ydym wedi ceisio mwy o waith prosiect gyda'r cwmni ar hyn o bryd.

Roedd Celf yn yr Atig yn lleoliad ymylol ar gyfer yr Eisteddfod. Fel aelod o is-bwyllgor celf yr Eisteddfod, roedd ein hartist preswyl yn chwarae rhan lawn yn y broses drwy gydol yr

VALLEYSKIDS.ORG



ŵyl. Mynychodd y digwyddiad agoriadol a gynhaliwyd yn Y Lle Celf; roedd hyn yn le gwych i rwydweithio ag artistiaid eraill, sefydliadau a'r artistiaid a oedd yn arddangos.

Gwahoddwyd yr artist preswyl hefyd i fod yn stiward yn Y Lle Celf, fel dysgwr Cymraeg. Roedd cymryd rhan yn y pwyllgor a mynychu digwyddiadau dilynol yn werthfawr a datblygodd ei hyder yn fawr.

Gwnaeth ein hartist preswyl gynnal arddangosfa yn Celf yn yr Atig, a oedd yn cynnwys gwaith enillwyr blaenorol y fedal aur, o'r enw Corona. Roedd y gwaith celf yn rhan o gasgliad preifat sy'n eiddo i'r artist Thomas Williams ac Antony Shapland.

Gwaith Ysgolion yr Eisteddfod

Gwnaeth ein hartist preswyl feithrin perthynas wych ag ysgol leol, Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn. Darparodd weithdy celf, yn canolbwyntio ar un o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol i ymfudo i Awstralia. Lluniodd y dosbarth waith celf yn arddull celf frodorol, gan ddefnyddio dotiau i greu darnau manwl. Arddangoswyd y gwaith celf yn ddiweddarach yng ngeri Celf yn yr Atig, ochr yn ochr â gwaith celf arall a luniodd arddangosfa. Cafodd ei churadu ar y cyd gan yr athro a'r artist preswyl fel rhan o Eisteddfod yr Urdd gyda'r plant yn chwarae rhan.

Darparodd ein hartist preswyl weithdy i'r disgyblion hefyd, a gynhaliwyd yn y Ffatri. Roedd yn canolbwyntio ar hanes Pop Corona, a ddeilliodd oddi yno ac a wnaeth y lleoliad yn enwog.

Gwaith gydag Ysgolion Cymraeg

Cefnogodd yr artist preswyl leoliad ysgol ar gyfer myfyriwr o'r Ysgol Gyfun Gymraeg leol yn y Cymer ac roedd hyn yn llwyddiannus iawn. Yn y cyfnod cyn yr Eisteddfod, gwnaeth y bobl ifanc ymarfer eu perfformiad hefyd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn y Ffatri a rhannwyd hyn â'r rhieni.

Perfformiadau Cymraeg a Dwyieithog

Gwnaethom gynnal ein sioe beilot gyntaf i deuluoedd yn y prynhawn gyda'r cwmnïau bendigedig Familia Del Noche a Brogs y Bogs, a oedd yn cynnwys y themâu newid hinsawdd a gofalu am yr amgylchedd.

Perfformiodd Theatr y Sherman Yr Hugan Fach Goch i gynulleidfa lawn o ysgolion Cymraeg lleol.

Gwnaethom gyflwyno The Ragged Theatre Collective gyda pherfformiad dwyieithog o 'Binderella'. Roedd hwn yn ddarn gwreiddiol hyfryd, a oedd yn canolbwyntio eto ar

gyfiawnder hinsawdd. Roedd y darn wedi'i osod i sgôr gwreiddiol, gydag offerynnau traddodiadol a geiriau hudolus.

Y Targedau a Gyflawnwyd yn 2024-2025

- Mae ein holl ddeunydd marchnata ar gyfer cynrychiadau yn gwbl ddwyieithog.
- Datblygodd Cynllun Celfyddydau Plant y Cymoedd strategaeth farchnata ddigidol ddwyieithog newydd, i ddiweddarau ein cynnwys yn rheolaidd.
- Gyda chymorth gan Ganolfan Mileniwm Cymru, cynyddodd y cynnwys Cymraeg a dwyieithog ar gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram Sparc.
- Mae cynnwys dwyieithog bellach yn cael ei gynhyrchu ar draws holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Plant y Cymoedd, gan amlygu gwaith Sparc ac arddangos cefnogaeth weithredol dros y Gymraeg.
- Perfformiwyd gwaith Pencil Breakers yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf.
- Perfformiodd yr artistiaid proffesiynol, Menna Rogers a Deborah Newton-Williams, ddarnau creadigol Pencil Breakers yn y babell Paned o Gê, dan gyfarwyddiaeth Bethan Marlow.
- Cynhaliodd aelod mwyaf hirsefydlog Sparc o Pencil Breakers sesiwn holi ac ateb am y gwaith.
- Mynychodd 15 o bobl ifanc o Theatrau Ieuencid Pen-y-graig a Rhydfelen yr Eisteddfod am y tro cyntaf; mwynhaodd pob un y profiad a byddent yn mynd eto.
- Roedd Celf yn yr Atig yn lleoliad ymylol ar gyfer yr Eisteddfod. Gwnaethom gynnal arddangosfa yn cynnwys gwaith enillwyr blaenorol y fedal aur, o'r enw Corona. Roedd y gwaith celf yn rhan o gasgliad preifat sy'n eiddo i'r artist Thomas Williams.
- Cynhaliodd yr artist preswyl weithdy celf yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynycelyn. Arddangoswyd y gwaith celf yn ddiweddarach yng ngaleri Celf yn yr Atig fel rhan o arddangosfa ehangach o'u gwaith ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.
- Darparodd yr artist preswyl weithdy i ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynycelyn yn y Ffatri ynghylch ei ran yn hanes Pop Corona.
- Cefnogodd yr artist preswyl fyfyrwyr ysgol ar leoliad o Ysgol Gyfun Gymraeg.
- Gwnaethom gynnal ymarfer o gyngerdd Eisteddfod yr Urdd a fynychwyd gan rieni.
- Darparodd yr arddangosfa Artistiaid wrth y Porth yng ngaleri Celf yn yr Atig eu digwyddiad yn ddwyieithog.

VALLEYSKIDS.ORG



- Mynychodd yr artist preswyl ddigwyddiad agor Y Lle Celf ac roedd yn stiward ar gyfer y lleoliad, a oedd yn lle gwych i rwydweithio ag artistiaid eraill, sefydliadau a'r artistiaid oedd yn arddangos.
- Cynhaliodd Sparc dri pherfformiad Cymraeg a Dwyieithog – Brogs y Bogs, Yr Hugan Fach Goch, a 'Binderella' gan The Ragged Theatre Collective.
- Arweiniodd Dirprwy Gyfarwyddwr Sparc y gwaith o gynllunio rhaglen yr Eisteddfod, fel ein dysgwr Cymraeg mwyaf profiadol.
- Mae aelodau ein fîm yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg yn rheolaidd. Mae ein Dirprwy bellach ar lefel uwch. Pasiodd ein artist preswyl ei Chwrs Mynediad 1 a 2 ac mae wedi cofrestru ar y cwrs Sylfaen yn y Flwyddyn Newydd.
- Mae gennym siaradwyr Cymraeg ar ein Bwrdd ac yn ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth.

Ymarferwyr Creadigol Allweddol

Gweithio gyda Bethan Marlow

Mae Bethan Marlow yn Aelod Cyswllt o Sparc a bu'n Artist Cymraeg Arweiniol i ni ar nifer o brosiectau allweddol, gan gynnwys comisiwn mawr dan arweiniad pobl ifanc gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a chefnogi ein Gŵyl Fach. Cefnogodd ni i ddatlu pen-blwydd Sparc yn 25 oed drwy fentora ein cynhyrchwyr sy'n dod i'r amlwg i gynnal eu noson 'scratch'. Mae'n cynnal Pencil Breakers yn rheolaidd, a ddisgrifir fel grŵp ysgrifennu i bobl Anabl a Chwiar, a Gweithredol, sy'n cynhyrchu gwaith dwyieithog. Eleni, cefnogodd ein gwaith yn yr Eisteddfod yn cyfarwyddo Pencil Breakers a chwrdd â phobl ifanc a'u cyfarch wrth iddynt gyrraedd. Cyfarwyddodd 'Whispering Tea Cups' yn Queertawe ar y cyd â Mess up the Mess. Mae Bethan yn artist cwiar y mae ei gwaith yn groestoriadol, yn ddwyieithog ac, ar brydiau, yn amlieithog.

Cefnogodd Sparc drwy gydol y pandemig a thu hwnt i ddatblygu nifer o lwyfannau dwyieithog, gan gynnwys llwyfan ddigidol, Shwmae Cymraeg. Mae'n ein cynorthwyo i estyn ein dulliau ymarfer Cymraeg ac yn ein hannog i weithio mewn ffyrdd cyffrous, hygyrch ac arloesol.

Trac Cymru

Gwahoddwyd Sparc i fod yn rhan o brosiect newydd bendigedig gyda Trac Cymru, yn Rhondda Cynon Taf, o'r enw Cân y Cymoedd. Mae'n brosiect sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, i gyfansoddi caneuon 'gwerin' newydd ar sail treftadaeth.

VALLEYSKIDS.ORG



leol, gan weithio gyda phlant ysgol a grwpiau ieuenctid. Ceir cyfle i weithio gyda chyfansoddwr proffesiynol dros gyfnod o wyth wythnos. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys trip i safle treftadaeth lleol a sesiwn recordio i gloi. Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o weithio gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynycelyn fel y gallai pobl ifanc berfformio eu darn ochr yn ochr â lansio eu harddangosfa Dydd Gŵyl Dewi.

Targedau ar gyfer 2025/26

Cyfathrebu a Marchnata

Yn 2023, gweithiodd Plant y Cymoedd gyda'r Cookie Dough Company anhygoel i lansio gwefan a brand newydd, addas i'r diben, rhyngweithiol, dwyieithog. Creodd hyn hunaniaeth 'ambarél' cydlynol ar gyfer Plant y Cymoedd sy'n cwmpasu nifer o wahanol elfennau o'n prosiectau a'n rhaglenni. Roedd gan bob maes ein logo lliw adnabyddadwy. Galluogodd hyn i ni adfywio a datblygu brand Sparc drwy gynnal ein gwefan Sparc ein hunain, a fydd yn galluogi mwy o draffig a diddordeb i gael ei greu ynghylch ein gwaith ar draws y llwyfannau. Mae gennym neges ac ymgyrch mwy cydlynol hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol o dan y pennawd 'Plant y Cymoedd ydyn ni i gyd', sy'n adlewyrchu ein cynllun celfyddydau Plant y Cymoedd ehangach.

Mae'r ymrwymiad hwn i frand gwbl ddwyieithog yn rhoi neges glir i'n cyfranogwyr a'n cyllidwyr ynghylch y Gymraeg ac yn caniatáu i ni gyrraedd cynulleidfa ehangach a datblygu ein hunaniaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Plant y Cymoedd wedi llunio cynnwys dwyieithog ar draws eu llwyfannau sy'n cynnwys ein gwaith. Mae ein gweithiwr celfyddydau ieuenctid, sy'n gyfrifol am ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, ac am ddiweddarau ein cynnwys ar y we, yn defnyddio fideos a chylchlythyrau newyddion digidol i farchnata ein gwaith.

Eleni, lluniodd Plant y Cymoedd grŵp marchnata a hysbysebu ar draws Plant y Cymoedd. Gan weithio gyda'n partneriaid, Admiral Insurance, a'u fîm marchnata profiadol iawn, mae gennym strategaeth ehangach ar gyfer ein gwaith. Rydym hefyd wedi llunio perthynas ag Ysgol Fusnes Manceinion, sy'n ein cefnogi â'n strategaeth farchnata, gan weithio'n benodol ar gyfer y Ffatri ar brosiect strategol. Mae'n bwysig

VALLEYSKIDS.ORG



pwysleisio cyd-destun Cymraeg ein gwaith yma a sicrhau ei fod wedi'i ymwreiddio ar bob lefel.

Targed: Bydd ein Gweithiwr Celfyddydau leuenctid penodedig yn parhau i ddiweddaru a datblygu hunaniaeth a gwefan dwyieithog Sparc. Bydd yn gweithio gyda'r bobl ifanc a'r fîm i ddatblygu cynnwys digidol a marchnata ein cynyrchiadau sy'n cynnwys pobl ifanc mewn ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a fydd yn datblygu eu set o sgiliau. Bydd y Cyfarwyddwyr Celfyddydau'n gweithio'n agos gyda thîm marchnata Admiral Insurance ac Ysgol Fusnes Manceinion i ddatblygu elfen marchnata'r celfyddydau ein gwaith a sicrhau ei bod yn gwbl dwyieithiog.

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig / gweithiwr celfyddydau penodedig / artist preswyl

Amserlen: Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Hyfforddi staff

Mae ein siaradwr Cymraeg mwyaf profiadol newydd gwblhau pum mlynedd o addysg Gymraeg ac wedi derbyn ei phedwerydd cymhwyster a gymeradwywyd gan CBAC. Eleni, arweiniodd ein gwaith gyda'r Eisteddfod. Mae hi newydd gael ei derbyn am yr ail waith i ymuno â'r Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol glodfawr gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n frwdfrydig ynghylch cyflwyno Cymraeg mewn cyd-destun dysgu ac mae'n cynnal ei sesiynau'n ddwyieithog.

Fel aelod o'r is-bwyllgor celfyddydau gweledol ar gyfer yr Eisteddfod, mynychodd yr artist preswyl gyfarfodydd a sesiynau a gynhaliwyd yn ddwyieithog yn rheolaidd. Fel rhywun sy'n dechrau dysgu Cymraeg, mae wedi dilyn Cwrs Mynediad lefel 1 a 2 yn ddiweddar. Mae hi bellach yn astudio'r cwrs Sylfaen.

Targed: Staff allweddol i fynychu Gwersi Cymraeg yn y gwaith

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig

Amserlen: Mehefin 2025 – Mehefin 2026

Sesiynau Rheolaidd

Byddwn yn annog ac yn gweithio gyda'n cyfranogwyr, pa un a ydynt yn siarad Cymraeg neu'n ddysgwyr, i greu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar gael hwyl ac y gellir ei fwynhau i rannu ac ymarfer y Gymraeg. Bydd y cyfranogwyr yn gallu cyfrannu yn eu hiaith ddewisol.

VALLEYSKIDS.ORG



Targed: 100 o sesiynau Cymraeg/dwyieithog; 275 yn eu mynychu

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig

Amserlen: Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Digwyddiadau Theatr a Chelfyddydol Dwyieithog

Fel rhan o'n rhaglen, mae Sparc yn cynnal digwyddiadau celfyddydol proffesiynol a chymunedol, Mae ein cynulleidfa yn bennaf yn cynnwys pobl ifanc lleol, y bydd y rhan fwyaf ohonynt erioed wedi profi digwyddiadau theatr byw. Eleni, rydym wedi trefnu i gyflwyno Blaidd gan Flossy and Boo, sy'n sioe ddwyieithog i blant. Dyma ein tro cyntaf yn gweithio gyda'r cwmni. Byddwn yn cyflwyno Biwti a Brogs, ar gyfer ein hysgolion Cymraeg, gyda Theatr y Sherman. Rydym yn edrych ar gynhyrchiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda Familia Del Noche. Rydym yn parhau i archwilio gwaith cwmnïau newydd sy'n canolbwyntio ar gynhyrchiadau dwyieithog a Chymraeg.

Targed: 4 perfformiad Cymraeg/dwyieithog gan gwmnïau proffesiynol.

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig

Amserlen: Ebrill 2025 – Hydref 2026

Y Prosiect Sgwennu Radical

Mae'r Prosiect Sgwennu Radical yn brosiect ysgrifennu creadigol Cymraeg sy'n amlygu lleisiau ar eu ffurf fwyaf cignoeth. Mae'n ymwneud â chefnogi ysgrifennwyr i archwilio'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrth y byd gan ddefnyddio unrhyw ffurf lenyddol sy'n eu cyffroi. Mae hefyd yn ymwneud â darparu man i'r gwaith gael ei glywed a'i berfformio o flaen cynulleidfa. Ac yna, mae'n annog ysgrifennwyr i ganfod llwybrau a chysylltiadau i fynd â'u gwaith ymhellach fel cam i mewn i'r diwydiant creadigol Cymraeg.

Dan arweiniad Bethan Marlow, mae'n cefnogi 3 ysgrifennwr ar hyn o bryd i ganfod eu llais yn Gymraeg. Mae un yn ddysgwr, sy'n teimlo bod ganddi lawer i'w ddweud ond nad oes ganddi'r geiriau i wneud hynny. Mae un arall yn teimlo'n gartrefol yn siarad Cymraeg ond nid yw'n siŵr y bydd cynulleidfa Gymraeg am glywed ei math hi o stori. A siaradwr Cymraeg rhugl sy'n argyhoeddedig bod ei Gymraeg yn gymysgedd rhyfedd o ranbarthau ac nad yw mor dda â "siaradwyd Cymraeg go iawn".

Gall ffurf y dramâu fod yn ddarn newydd o theatr, yn ddrama radio neu'n gasgliad o farddoniaeth. Mae Bethan hefyd yn eu mentora ar eu gyrfaedd a sut i gyflwyno'r

VALLEYSKIDS.ORG



gwaith hwn i gynhyrchwyr a chwmnïau theatr ledled Cymru fel ffordd o gyflwyno'r ysgrifenydd newydd anhygoel hyn.

Targedau:

28 o sesiynau ysgrifennu creadigol

15 o sesiynau datblygu ar gyfer 3 ysgrifennwr Cymraeg sy'n dod i'r amlwg

1 digwyddiad arddangos ysgrifenydd

2 daith i ddigwyddiadau Cymraeg / dwyieithog

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig

Amserlen: Ebrill 2025 – Hydref 2026

Trac Cymru

Rydym yn anelu at weithio gyda Trac Cymru, Sparc ac ysgolion lleol i ddatblygu partneriaeth newydd. Ffocws hyn yw cynhyrchu darn gwreiddiol newydd y gellir ei berfformio yn y Ffatri yn Porth, ochr yn ochr ag arddangosfa gelfyddydol newydd o waith plant ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc greu gwaith newydd sy'n cyfleu beth y maent eisiau ei ddweud am eu cymoedd a'u cartref mewn ffordd greadigol iawn. Ar gyfer Sparc, rydym eisiau defnyddio hyn fel llwyfan i weithio'n agosach gyda Trac Cymru, gan ddatblygu elfen newydd o waith Cymraeg.

Targed: gweithio gyda Sparc, ysgol leol a chyfansoddwr Cymraeg proffesiynol Trac Cymru. I ddatblygu trac gwerin gwreiddiol y gellir ei recordio a'i berfformio gan y plant.

8 sesiwn

1 ymweliad â stiwdio recordio

1 ymweliad treftadaeth

1 perfformiad lleol

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Cyfarwyddwr Artistig.

Amserlen: Ebrill 2025 – Hydref 2026

Gwaith ar y Celfyddydau Gweledol mewn Ysgolion

Mae gan ein hartist preswyl eisoes berthynas wedi'i sefydlu ag Ysgol Llwynycelyn, ein hysgol Gymraeg leol, ac mae'n parhau i ddatblygu cyfleoedd i gynnal gweithdai gyda'r plant.

VALLEYSKIDS.ORG



Roedd eu harddangosfa'n cynnwys gwaith ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a rhoddodd gyfle i'r plant a'u rhieni a'u neiniau a'u teidiau weld eu gwaith gwych mewn lleoliad proffesiynol. Roedd y plant wrth eu boddau i gael croesawu eu teuluoedd ac roeddent yn llawn balchder wrth ddangos eu gwaith. Dilynwyd hyn gan arddangosfa arall ym mis Mawrth 2025 a oedd yr un mor llwyddiannus.

Gan barhau i ddatblygu ein perthynas bresennol â'n hysgol gynradd Gymraeg leol, byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu ag ysgol uwchradd Gymraeg leol i greu cyfleoedd ar gyfer cynnal gweithdai yn yr ysgol ac yn y Ffatri, Porth.

Rydym hefyd yn ceisio datblygu gwaith ar y cyd gyda Trac Cymru a'r ysgolion Gymraeg lleol a fydd yn arwain at Arddangosfa Gelf a pherfformiad ar Ddydd Gŵyl Dewi yn y Ffatri.

Targed: Datblygu rhaglen Gymraeg a dwyieithog i ysgolion ar gyfer y celfyddydau gweledol drwy weithio gydag ysgolion lleol a defnyddio Celf yn yr Atig i hyrwyddo a chefnogi eu gwaith.

2 weithdy mewn Ysgolion Gymraeg

2 weithdy yn y Ffatri gyda chyfleoedd i arddangos gwaith celf yng ngaleri Celf yn yr Atig.

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: Artist Preswyl

Amserlen: Mehefin 2025 – Mehefin 2026

Lleisiau'r Cymoedd – Prosiect Treftadaeth

Mae Plant y Cymoedd yn rhan o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae'n gweithio'n agos gyda Casgliad y Werin Cymru ac Archifau Morgannwg i feithrin arbenigedd a chynghor ynghylch sut yr ydym yn casglu ac archifo treftadaeth Plant y Cymoedd.

Rydym wedi derbyn hyfforddiant ac rydym yng nghanol y broses o ddewis deunydd arwyddocaol i'w archifo, ac yn darparu cyfleoedd i gymunedau'r gorffennol a'r presennol rannu eu storïau a'u hatgofion â ni, drwy gyfres o recordiadau fideo a sain a thrwy'r gair ysgrifenedig.

Rydym wedi sefydlu perthynas â Casgliad y Werin Cymru, ac yn parhau i gwrdd â phobl leol i gasglu eu storïau ac i edrych ar y nifer o luniau a gymerwyd dros y blynyddoedd fel ein bod yn barod i lenwi ein harchif.

VALLEYSKIDS.ORG



Gan fod y naill safle a'r llall yn gwbl ddwyieithog, byddwn yn sicrhau yn y dyfodol ein bod yn trawsgrifio ac yn cyfieithu i Gymraeg a Saesneg, gan roi cyfle arall i integreiddio'r Gymraeg yn ein hymarfer gweithio bob dydd.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y prosiect hwn yn dwyn ffrwyth, a bydd yn cynnwys cyfweiliadau a storïau dwyieithiog a gyflwynwyd fel rhan o'r casgliad, gan arwain at arddangosfa yn Celf yn yr Atig.

Targed: Datblygu archif byw o gyfraniad rhyfeddol Plant y Cymoedd at fywyd diwylliannol y Cymoedd a Chymru, gydag Archifau Morgannwg a Casgliad y Werin Cymru.

Yr Unigolyn â Chyfrifoldeb: artist preswyl (arwain)

Amserlen: Cwblhau'r prosiect erbyn Tachwedd 2025

Monitro a Mesur y Cynllun

- Mae Bwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd yn cyfarfod bob chwarter a bu'n weithredol ers dros flwyddyn. Mae Cadeirydd Plant y Cymoedd hefyd yn cadeirio Bwrdd Celfyddydol Plant y Cymoedd i sicrhau cysondeb a dod ag unrhyw faterion allweddol i sylw'r ymddiriedolwyr.
- Mae Bwrdd Celfyddydol Plant y Cymoedd yn cael ei weinyddu a'i oruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Celfyddydau (Cyfarwyddwr Artistig Sparc yn flaenorol).
- Bydd yr holl gamau gweithredu a amlinellir yn y cynllun yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd, ochr yn ochr â'n targedau strategol.
- Mae gan y fîm rheoli newydd (gan gynnwys y Cyfarwyddwr Celfyddydau) gyfrifoldeb ar y cyd am gynrychiolaeth y Bwrdd a bydd yn monitro cynnydd siaradwyr Cymraeg ar ein Bwrdd yn flynyddol pan fydd Aelodau'r Bwrdd yn cael eu hadolygu.
- Mae ein Cynllun Datblygu Busnes yn rhoi sylw i sut y byddwn yn gwneud ein gwaith yn fwy deniadol i siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr. Byddwn yn monitro'r cynnydd drwy ein trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, ac yn bwysicaf oll, gyda'n cyfranogwyr.

Mae gan ein Cynllun Busnes a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023 ac sy'n cael ei ddiweddarau pob blwyddyn gynllun gweithredu blynyddol sy'n adlewyrchu'r Cynllun

VALLEYSKIDS.ORG



Iaith Gymraeg ac mae'n tynnu sylw at y materion allweddol y bydd angen gweithredu arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod.

Croesawu Newid

1. I aelodau'r Bwrdd, cynllun Celfyddydau Plant y Cymoedd sy'n edrych tuag allan, yn croesawu dull dwyieithog o weithio ac yn dangos hyn drwy ein proses greadigol.
2. I'r staff, mae angen agwedd fwy hyderus tuag at y Gymraeg sy'n galluogi ac yn cefnogi ac yn gwneud y mwyaf o'n cryfderau
3. I'n cyfranogwyr, mae angen agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg sy'n cynyddu eu hyder ac yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu hunain drwy eu dewis iaith.